

BIOLEG 1: Molecylau i Organau

Amser - 1.5 awr

Rhowch gynnig ar 3 chwestiwn.

1. Beth yw gwaed ac ym mha weithrediadau corfforol y mae gwaed yn bwysig?
2. Eglurwch sut y mae moleciwl glwcos yn cael ei fetaboleiddio mewn cell ewcaryotig.
3. Beth yw bacteria ac ym mha ffordd y maent yn wahanol i gelloedd ewcaryotig?
4. Disgrifiwch sut y mae wrin yn cael ei gynhyrchu yn y corff dynol.
5. Sut y mae gwahanol fathau o anifeiliaid wedi ymaddasu i'w deietau?
6. Ysgrifennwch draethawd ar adeiledd a swyddogaethau pilenni biolegol.
7. Rhowch enghreifftiau o ensymau gwahanol ac esboniwch sut y gellir astudio eu hymatebion.
8. Amlinellwch y camau cellog o'r genyn ar y cromosom i'r protein yn y sytoplasm.
9. Esboniwch adeiledd celloedd nerfol a disgrifio sut y maent yn gweithio.
10. Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod mislif menywod?
11. Sut y mae dŵr, ïonau anorganig, a chyfansoddion organig yn cael eu symud o gwmpas mewn planhigion?
12. Diffiniwch 'homeostasis' a rhowch enghreifftiau.
13. Dewiswch glefyd heintus a dychmygwch eich bod yn feddyg sy'n gorfod trin y clefyd hwnnw. Disgrifiwch, gan roi esboniadau gwyddonol, y dulliau y byddech yn eu defnyddio ar gyfer y driniaeth.
14. Beth yw 'biowybodeg' a pham y mae'n bwysig?
15. Ysgrifennwch draethawd ar y testun 'polysacaridau a'u swyddogaethau biolegol'.
16. Trafodwch egwyddorion geneteg 'Mendelaidd'.
17. Pa un o'ch systemau ffisiolegol a fydd yn dangos gweithgaredd uwch na'r cyffredin wrth wneud chwaraeon?
18. Disgrifiwch unrhyw arbrawf neu arolwg biolegol a wnaethoch.